

Datganiad am Gyfartaledd, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym yn dathlu amrywiaeth o fewn ein sefydliad a'r cymunedau rydym yn gweithio gyda nhw.

Mae Grŵp United Welsh yn falch o fod yn rhan o gymunedau cyfoethog o ran diwylliant, gyda gwahanol safbwyntiau a phrofiadau ac rydym am i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac yn gweithio gyda ni deimlo eu bod wedi cael eu trin â chwarteisi a pharch; eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolyn ac yn gallu cael mynediad at yr hyn sydd ei angen arnynt.

Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn cyflogaeth a darpariaeth ein gwasanaethau.

Mae hyn yn golygu y byddwn, drwy gydol ein gwasanaethau, yn ystyried:

Cydraddoldeb - Triniaeth deg a mynediad at wasanaethau sy'n darparu canlyniadau teg.

Amrywiaeth - Cydnabod a gwerthfawrogi gwahaniaethau rhwng pobl a gwahanol safbwyntiau.

Cynhwysiant - Creu amgylcheddau lle mae pawb yn cael eu parchu; teimlo eu bod yn perthyn a gallant fod yn nhw eu hunain.

Mae sut rydym yn cyflawni hyn yn cynnwys:

- Cydnabod bod pawb yn wahanol a thrin y gwahaniaethau hyn â pharch
- Gwerthfawrogi amrywiaeth a diwylliannau pawb a'r cymunedau lle rydym yn gweithio
- Lle bo'n bosibl ac yn briodol, cymhwyso egwyddorion ecwiti
- Gwrando ac ymgysylltu i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau'n agored ac yn deg, ac mewn ffyrdd sy'n addas i'n cwsmeriaid
- Buddsoddi mewn gweithlu medrus, gwybodus ac amrywiol
- Diogelu pobl rhag gwahaniaethu
- Gweithio gyda phartneriaid sy'n rhannu ein gwerthoedd cydraddoldeb yn unig
- Herio gwahaniaethu ac allgáu ym mhob ffurf

Rydym wedi ymrwymo i brif ffyrddio cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ar draws y Grŵp, gan ddysgu'n agored a monitro i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud pethau'n iawn ac yn ymatebol i newid.